
GRAFFEG

# Artist Ydw I




Awdur: Kertu Sillaste
Oedran: 5-7
Fformat: Clawr meddal
Iaith: Cymraeg
Maint: 250 x 250mm
Pris: £7.99

## Clawr

**Trafod a chlonc**

Beth ydy teitl y stori?

Kertu Sillaste ydy'r awdur a'r darlunydd - hi ysgrifennodd y stori a chreu'r lluniau.

Adam Cullen ydy'r cyfieithydd.

Pwy welwch chi ar y clawr?

Beth arall welwch chi?

Beth ydy'r cerfluniau? Allan o beth maent wedi eu creu?

Mae'r llyfr gwreiddiol wedi'i ysgrifennu yn Estoniaid.

Trafodwch ieithoedd gyda'r dosbarth, gofynnwch a ydy'r plant yn gallu siarad ieithoedd gwahanol.

Beth yw cyfieithu? Ydych chi yn gallu meddwl am sefyllfaoedd lle mae cael cyfieithydd yn bwysig?

**Gweithgareddau**

Ydych chi yn gallu creu cerflun o'ch hunan?

Mae Kertu Sillaste yn dod o Estonia. Ydych chi yn gallu darganfod Estonia ar fap? Ymchwiliwch am Estonia.



## Tudalen fewnol

**Trafod a chlonc**

Beth welwch chi?

Pa siapau sydd?

Gweithgareddau:

Torrwch siapau allan o bapur i greu golygfa.



## Tudalen 4 a 5

**Trafod a chlonc**

Beth ydy artist?

Ydych chi yn gallu enwi unrhyw artistiaid?

Edrychwch ar yr hunanbortreadau yn y llyfr – beth maent wedi creu o?

Trafodwch dalentau'r plant.

*Artist Ywd I!* Nodiadau Addysgu © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Alexa Price. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.

**Gweithgareddau**

Dyfeisiwch hunanbortread gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau celf wahanol.

Ymchwiliwch amryw o artistiaid. Dangoswch amrywiaeth o gelf a chymharwch y gwahanol fathau.

Cynnal sioe dalent.




## Tudalen 6 a 7

**Trafod a chlonc**

Trafodwch greadigrwydd.

O ble mae syniadau yn dod? e.e. celf pobl eraill, straeon, natur, newyddion, dychymyg.



## Tudalen 8 a 9

**Trafod a chlonc**

Trafodwch syniadau Gwyn - syniadau da neu ddrwg? Pam?

Beth yw celf? Ydy syniadau Gwyn yn newid eich meddwl am gelf?

**Gweithgareddau**

Creu map meddwl o'ch syniadau celfyddydol.

Artist cyfoes ydy Gwyn - ymchwiliwch i mewn i beth mae artist cyfoes ac edrychwch ar esiamplau.

Ewch i https://www.tate.org.uk/kids a gwyliwch ei fideo 'Why is Art so Weird?'.



## Tudalen 10 a 11

**Trafod a chlonc**

Beth yw cofeb?

Pam ydych yn meddwl bod celf yn gallu bod yn gêm? Ydych chi yn mwynhau creu celf? Ydy celf yn chwaraeus?

Allwch chi adnabod unrhyw rai o'r gwrthrychau y mae'r cerfluniau wedi'u gwneud allan o?

Beth yw glôb? Allwch gweld y glôb? Allwch chi ddod o hyd i'r DU ar y glôb? Beth am Estonia, o ble mae'r awdur yn dod?

Allwch chi weld y pêl-droed yn y llun? Pa chwaraeon ydych chi'n mwynhau chwarae?

**Gweithgareddau**

Creu cerflun 'jync': https://www.tate.org.uk/kids/make/sculpture/make-junky-funky-sculpture



## Tudalen 12

**Trafod a chlonc**

Beth ydy Gwyn yn gwneud? Mae Gwyn yn peintio.

Beth ydych chi yn meddwl bod Gwyn yn peintio?

Ydych chi yn hoff o waith Gwyn? Pam?

**Gweithgareddau**

Peintiwch ddarn yn debyg i Gwyn.



## Tudalen 13

**Trafod a chlonc**

Beth ydy Gwyn yn gwneud?

Beth mae Gwyn yn ei ddal?

Beth ydy camera yn gwneud?

Ydych chi erioed wedi cymryd llun ar gamera?

Beth yw llun tirwedd (landscape)? Sut mae hyn yn wahanol i lun bortread (portrait)?

**Gweithgareddau**

Gwahoddwch y plant i dynnu lluniau o'r ysgol gan ddefnyddio camerâu tafladwy. Datblygwch y delweddau a'u dangos i'r dosbarth.

Edrychwch ar sut mae goleuadau yn cael effaith ar ffotograffiaeth - tynnwch luniau yn fathau o oleuadau gwahanol a'u dangos i'r plant. Gofynnwch iddyn nhw adnabod y gwahaniaethau.

Ymchwiliwch mewn i sut mae camerâu wedi newid ers iddyn nhw gael eu dyfeisio.



## Tudalen 14 a 15

**Trafod a chlonc**

Ym mha ffordd oes angen i chi 'darganfod' yng nghelf?

Darganfod ysbrydoliaeth, darganfod deunyddiau ayyb.

Ym mha ffordd ydy Gwyn yn 'adnabod'? Adnabod beth rydych yn mwynhau, beth sydd yn gwneud celf 'da' ayyb.

Beth yw storc?

Pa anifeiliaid sydd yn byw yn y jyngl?

Pam ydy'r tarw crac yn goch? Trafodwch gynodiadau lliwiau gyda phlant - melyn yn hapus, coch yn gariad neu yn ddicter ayyb.

Allan o ba siapau creuwyd yr anifeiliaid?

Pa anifeiliaid arall sydd yn y llun?

Beth yw eich hoff anifail?

**Gweithgareddau**

Gwnewch eich hoff anifail allan o siapau.

*Artist Ywd I!* Nodiadau Addysgu © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Alexa Price. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Tudalen 16 a 17

**Trafod a chlonc**

Beth ydy Gwyn yn darlunio?

Sut mae'r chwaraewr pêl-droed yn teimlo? Sut ydych chi yn gwybod hyn?

Sut mae'r bobl ar y cwch yn teimlo? Sut ydych chi yn gwybod hyn?

**Gweithgareddau**

Dangoswch gelf gan artistiaid gwahanol a thrafodwch y

straeon sydd tu ôl iddyn nhw.

Tynnwch lun o'ch hoff atgof.

Ysgrifennwch stori ar gyfer y lluniau ar y tudalennau yma.




## Tudalen 18 a 19

**Trafod a chlonc**

Pa siâp ydy Gwyn wedi creu?

Ym mhle arall byddech chi yn gweld cymaint o flodau?

**Gweithgareddau**

Gwnewch 'gardd o bapur' gyda blodau a choedwig wahanol.



## Tudalen 20 a 21

**Trafod a chlonc**

Trafodwch ddatgoedwigo.

Ym mha ffordd ydy ceir yn effeithio ar yr amgylchedd?



## Tudalen 22 a 23

**Trafod a chlonc**

Trafodwch liwiau a theoriau lliwiau.

**Gweithgareddau**

Ydych yn gallu ail-greu rhai o syniadau Gwyn gan ddefnyddio papur neu deganau?



## Tudalen 24 a 25

**Trafod a chlonc**

Sut mae Gwyn yn teimlo?

Pryd ydych chi wedi ffeindo rhywbeth yn galed? Beth wnaethoch chi?

Pam ydy o'n galed i ddarlunio teigr?

Ymchwiliwch deigr.

Pwy sydd yn gallu darlunio'r teigr gorau?

Ydych chi yn gallu darlunio 100 teigr?

*Artist Ywd I!* Nodiadau Addysgu © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Alexa Price. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Tudalen 26 a 27

**Trafod a chlonc**

Sut ydych yn teimlo pryd mae pethau yn mynd o'i le?


Sut ydych chi yn ymdopi hefo pryder?

Beth sydd yn gwneud chi'n hapus pryd rydych yn drist?

Trafodwch ymarferion ymwybyddiaeth ofalgar (mindfulness) i'ch helpu pryd rydych yn teimlo'n orbryderus.

**Gweithgareddau**

Darluniwch sut rydych yn teimlo heddiw.



## Tudalen 28 a 29

**Trafod a chlonc**

Pam ydy dyfalbarhau yn bwysig?

Beth yw dyfalbarhau?



## Tudalen 30 a 31

**Trafod a chlonc**

Sut mae Gwyn yn teimlo?

Pam ydy cymeradwyaeth yn bwysig?

Oes brodyr neu chwiorydd gennych chi?

Ydych chi erioed wedi dangos eich gwaith celf i'ch teulu? Sut oedd yr ymateb?

Ydych chi wedi bod yn ddewr yn ddiweddar? Sut?

Pa fathau eraill o waith sydd angen dewrder? Doctoriaid, actorion, dynion tan, ayyb.

Ydych chi yn gallu gweld y lleuad yn y llun yma? Pam ydy'r lleuad yn bwysig? Pa mor ddiweddar gallwch gweld lleuad llawn?

Pa fath o ddinosor ydy hwn? Pa fathau eraill o ddinosor ydych chi'n gwybod? ?

Beth sydd wedi'u defnyddio i greu'r cerfluniau? Esgidiau, dillad, peli bowlio ayyb.

Ydych chi erioed wedi ymweld â sw?

Gallwch chi enwi rhai o'r anifeiliaid yn y llun sw yma? Pa anifeiliaid arall sydd yn byw mewn sw?

**Gweithgareddau**

Gwnewch galeri o waith y plant a gwahoddwch rieni i ddod a'i weld.

Gofynnwch i'r plant i greu anifail gwahanol allan o fathau o gelf wahanol, a chreu arddangosfa.

Gwnewch brintiau dinosor gan ddefnyddio sbyngau, stampiau tatws, neu beintio gyda bysedd.

*Artist Ywd I!* Nodiadau Addysgu © 2022 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Alexa Price. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Tudalen 32 a 33

**Trafod a chlonc**

Ydych chi'n gallu gweld rhai o'r deunyddiau defnyddiodd Gwyn trwy gydol y llyfr?

Faint o wahanol fathau o gelf sydd yn y stori? Pa un yw eich ffefryn? Ydych chi yn gallu enwi eraill?

Pa un oedd eich hoff ddarn o gelf y stori? Pam?

**Gweithgareddau**

Ewch i galeri i weld faint o fathau o gelf wahanol rydych yn gallu gweld?

Gwnewch stensil print eich hun o sbwng a'i ddefnyddio i greu darn o gelf.

## Clawr cefn

**Trafod a chlonc**

Beth yw broliant? Disgrifiad bach o'r stori.

Beth arall sydd ar gefn y llyfr? Y pris/ ISBN.

Beth yw celf? Meddyliwch am esiamplau o'r stori.

Beth yw artist? Hoffech chi fod yn artist fel Gwyn?

O ble mae syniadau da yn dod? Meddyliwch am yr hyn a allai ddylanwadu ar waith artist – eu bywyd, natur, artistiaid eraill ac ati.

**Gweithgareddau**

Gwahodd artist i'r ysgol i drafod ei bywydau dyddiol a'i gwaith.

Gall y nodiadau hyn gynnwys dolenni i wefannau trydydd parti. Nid yw Graffeg yn cymeradwyo gwefan(nau) or fath na'u cynnwys ac nid yw'n gyfrifol am gynnwys or fath ac nid yw'n cyflwyno unrhyw sylwadau na gwarantau ynghylch cynnwys, cywirdeb neu ymarferoldeb gwefan(nau) o'r fath.